

The Owner / Occupier

**Fy Nghyf/ My Ref: IF101**

**Dyddiad/ Date: 19 June 2019**

Dear Sir / Madam

**Proposed No Waiting at Any Time (Double Yellow Lines) Aneurin Bevan Drive, Church Village**

As you may be aware, the council recently consulted on proposals to introduce waiting restrictions (double yellow lines) in Aneurin Bevan Drive, Church Village to address concerns regarding obstructive parking.

15 letters were sent out and 9 responses received.

A main concern raised was that, if the restrictions were introduced as proposed, parking would be displaced to outside of the residential properties. A number of the responses received asked for the introduction of residents parking.

The Council has recently approved a new and updated residents parking policy. In order for a street or group of streets to be eligible for a permit, the following eligibility criteria must be satisfied:

- That the street/s under consideration for a scheme are in close proximity to a town centre, large employment area, transport hub, retail park or other establishments or areas which cause parking capacity to be an issue due to non-resident parking.
- Opportunity for residents to park in their street is restricted by non-resident parking.
- That the 'ripple' effect of non-permit holders onto neighbouring streets is acceptable and will not adversely affect residents on neighbouring streets.

Aneurin Bevan Drive does not meet this criteria therefore I cannot recommend that residents parking is introduced at this location.

It must also be acknowledged that parking enforcement officers do not work at night. Therefore any overnight restriction is unlikely to get the required level of enforcement which could lead to further frustration for residents.

The original complaint was that the parking on Aneurin Bevan Drive was obstructive and presented a danger to other road users. In order to address these concerns, it is proposed that waiting restrictions be introduced as shown on the attached drawing F101-3 and can also be viewed at [www.rctcbc.gov.uk/traffic](http://www.rctcbc.gov.uk/traffic). It should be noted that the area directly fronting the residential properties will be free of any restrictions. This would allow residents to continue to be able to park across their driveways however; any obstructive parking would have to be dealt with by the police.

The next stage is a period of Public Notice of the proposals, where details of the scheme are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any comments they may have. If you wish to comment on the proposals, you should do so in writing by 11 July 2019, to the Traffic Services Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or alternatively by email at [trafficservices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficservices@rctcbc.gov.uk)

I trust the above is of assistance.

Yours faithfully

Andrew McGowan  
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig Senior Engineer, Traffic Management

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Nigel Wheeler B.Sc(Hons)**

Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



Y Perchennog/Meddiannydd

**Fy Nghyf/ My Ref: IF101**

**Dyddiad / Date: 19 Mehefin 2019**

Annwyl Syr/Fadam

**Cynllun Arfaethedig - Dim Aros ar Unrhyw Adeg (Llinellau Melyn Dwbl) Aneurin Bevan Drive, Pentre'r Eglwys**

Efallai eich bod chi'n gwybod eisoes bod y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad diweddar ynglŷn â chynigion i gyflwyno cyfyngiadau aros (llinellau melyn dwbl) yn Aneurin Bevan Drive, Pentre'r Eglwys. Nod hyn yw mynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â cheir yn peri rhwystr.

Cafodd 15 o lythyrau eu hanfon at drigolion lleol a daeth 9 o atebion i law.

Un o'r prif bryderon a gafodd ei nodi oedd y byddai'r mesurau yma, o'u gweithredu yn arwain at bobl yn parcio y tu allan i eiddo'r trigolion. Roedd nifer o'r ymatebion yn gofyn am gyflwyno parcio i breswylwyr y stryd.

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi newydd ddiwydiedig o ran parcio i breswylwyr. Er mwyn i stryd neu grŵp o strydoedd fod yn gymwys i gael trwydded, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Bod y stryd / strydoedd dan sylw ar gyfer cynllun yn agos iawn at ganol tref, ardal gyflogaeth fawr, canolfan drafnidiaeth, parc manwerthu neu sefydliadau neu ardaloedd eraill sy'n peri i gapasiti parcio fod yn broblem oherwydd parcio gan bobl sydd ddim yn byw ar y stryd.
- Mae'r cyfle i drigolion barcio ar eu stryd yn cael ei gyfyngu oherwydd bod pobl sydd ddim yn byw yno yn parcio yno.
- Nid oes yna effaith andwyol ar drigolion strydoedd cyfagos oherwydd y polisi parcio â thrwydded ar y stryd yma.

Nid yw Aneurin Bevan Drive yn bodloni'r meini prawf hyn felly nid oes modd i mi argymhell bod parcio i breswylwyr yn cael ei gyflwyno yn y lleoliad yma.

Rhaid cydnabod hefyd nad ydy swyddogion parcio yn gweithio gyda'r nos. Mae'n annhebygol felly y bydd unrhyw gyfyngiadau dros nos yn cael eu gorfodi, ac mae modd i hyn arwain at rwystredigaeth pellach i drigolion lleol.

Y gŵyn wreiddiol oedd bod y sefyllfa o ran parcio ar Aneurin Bevan Drive yn creu rhwystr ac yn berygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn mae modd cyflwyno cyfyngiadau aros fel y gwelir yn llun atodedig F101-3 ac mae modd gweld hyn ar [www.rctcbc.gov.uk/traffig](http://www.rctcbc.gov.uk/traffig). Dylech chi nodi na fydd unrhyw gyfyngiadau o flaen yr eiddo preswyl. Byddai hyn yn galluogi'r trigolion i barhau i barcio ar draws eu dreif. Serch hynny, byddai angen i'r heddlu ymdrin ag unrhyw geir sydd wedi'u parcio mewn modd sy'n peri rhwystr.

Y cam nesaf yw paratoi Hysbysiad Cyhoeddus sy'n nodi manylion y cynllun. Dyma gyfle i aelodau o'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau sydd ganddyn nhw, a hynny mewn dull ffurfiol. Pe hoffech chi wneud sylwadau ar y cynllun, anfonwch nhw'n ysgrifenedig, erbyn 11 Gorffennaf 2019, ar gyfer sylw'r Rheolwr Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU neu drwy e-bostio: [GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk)

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi.

Yn gywir

Andrew McGowan

Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig Senior Engineer, Traffic Management

**Tŷ Sardis/Sardis House**

Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU

Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Nigel Wheeler B.Sc(Hons)**

Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.